# Cystadleuaeth 'Spelling Bee' Genedlaethol i Flwyddyn 7

## Pecyn Athrawon

routes into LANGUAGES
Llwybrau at ieithoedd
CYMRU

## Cynnwys


Trosolwg y Gystadleuaeth

Cyfnod 1 - Cystadleuaeth Ddosbarth

Cyfnod 2 - Cystadleuaeth Ysgol

Cyfnod 3 - Cystadleuaeth Ranbarthol

Cyfnod 4 - Cystadleuaeth Genedlaethol

Cysylltiadau




# Trosolwg y Gystadleuaeth

## Nod

**Nod y "Spelling Bee" yw i fyfyrwyr ym Mlwyddyn 7 i ymarfer ac i wella eu geirfa, sillafu a sgiliau'r cof mewn iaith arall (Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg a Chymraeg ail iaith).**

## Proses

- Mae'r gystadleuaeth yn cynnwys tri chyfnod dros y tri thymor:

| TYMOR YR HYDREF | TYMOR Y GWANWYN | TYMOR YR HAF |
|---|---|---|
| Cystadleuaeth Ddosbarth Unigol | Cystadleuaeth Ysgol Gyfan<br>Cystadleuaeth Ranbarthol | Cystadleuaeth Genedlaethol |

- Bydd myfyrwyr yn derbyn 50 o eiriau i'w dysgu yng nghyfnod cyntaf y gystadleuaeth a fydd 50 o eiriau eraill yn cael eu hychwanegu at bob cyfnod dilynol. Bydd yr eirfa yn berthnasol i'r cwricwlwm.
- Dylid lansio'r gystadleuaeth ar gychwyn tymor yr hydref a dylid treulio amser yng ngwersi cyntaf y flwyddyn yn addysgu ac ymarfer yr wyddor yn yr iaith dramor (gan roi sylw ar ddisgrifio llythrennau ag acenion, ayyb...).
- Yn wahanol i " Spelling Bee" uniaith, bydd myfyrwyr yn derbyn y gair yn Saesneg neu'n Gymraeg. Yn gyntaf bydd rhaid iddynt ei gyfieithu i'r Iaith Darged ac yna ei sillafu allan yn gywir gan ddefnyddio'r wyddor yn y Targed.
- Pan yn cymryd rhan, bydd myfyrwyr yn cael un funud i sillafu yn gywir cynifer o eiriau ag y bo modd. Dylai'r myfyrwyr gyfieithu'r gair gan ddefnyddio'r fannod gywir, ond yr enw yn unig sydd yn rhaid iddynt ei sillafu.
- Os ydynt yn sillafu lliw sydd yn dechrau â 'de color...', dylid dweud hynny yn y cyfieithiad, ond ddylid sillafu'r lliw yn unig
- Dylent gael yr hawl i orffen y gair a ddechreusant ei sillafu cyn i'r amser ddod i ben.
- Gall y myfyrwyr ddweud 'nesaf' ar unrhyw adeg ond dylid dweud y gair yn yr Iaith Darged.
  Dylid sillafu acenion ac atalnodi yn y ffordd ganlynol:

**Ffrangeg**

| Sut mae'r acen yn ymddangos? | Beth yw ei enw? |
|---|---|
| â ê î ô û | accent circonflexe |
| ç | cédille |
| é | accent aigu |
| è | accent grave |
| ë ï ö ü | tréma |

- Bwlch – blanc
- Nesaf – je passe
- Collnod – apostrophe
- Cysylltnod – trait d'union

**Sbaeneg**

| Sut mae'r acen yn ymddangos? | Beth yw ei enw? |
|---|---|
| á é í ó ú ñ | tilde |

- Bwlch – espacio
- Nesaf – paso
- Cysylltnod – guión



**Almaeneg**

| Sut mae'r acen yn ymddangos? | Beth yw ei enw? |
|---|---|
| ä ö ü | Umlaut |
| ß | S-Zett / scharfes S |

- Bwlch – Leerzeichen / Abstand
- Nesaf – ich passe
- Cysylltnod – Bindestrich

**Cymraeg**

| Sut mae'r acen yn ymddangos? | Beth yw ei enw? |
|---|---|
| â ê î ô û ŷ | Acen grom (to bach) |

- Bwlch
- Nesaf
- Collnod
- Cysylltnod

- Dylid dyrannu'r geiriau ar hap.
- Dylid cyflwyno enwau'r enillwyr ym mhob cyfnod i dîm Llwybrau at Ieithoedd Cymru erbyn y dyddiad cau a nodir er mwyn i enillwyr dderbyn cydnabyddiaeth am eu cyflawniad ar ffurf tystysgrif, ac fel bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer y rownd ddilynol. Dylid nodi enwau ar y ffurflen rhagnodedig a'i hanfon at:
  Llwybrau at Ieithoedd Cymru, CILT Cymru, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX.
  routescymru@ciltcymru.org.uk
  Ffacs: 029 2026 5411

---

# Cyfnod 1 - Cystadleuaeth Ddosbarth

## Dylai Athrawon:

**a. lansio'r gystadleuaeth i'r myfyrwyr ar gychwyn cynta'r tymor.**

**b. addysgu'r wyddor yn yr Iaith Darged** cyn gynted â sydd bosib yn y tymor, gan sicrhau fod y myfyrwyr yn gallu enwi'r llythrennau gydag acenion ayyb.

**c. dyrannu'r 50 o eiriau ar gyfer y cyfnod** i'w myfyrwyr fel bod modd iddynt ddechrau eu cofio a'u hymarfer (gellir lawrlwytho'r geiriau ar gyfer pob cyfnod oddi ar dudalen adnoddau gwefan Llwybrau at Ieithoedd Cymru www.routesintolanguages.ac.uk/cymru).

**d. profi'r myfyrwyr** yn wythnosol. Awgrymir bod modd gwneud hyn fel dechreuad i'r wers neu fel sesiwn lawn o leiaf unwaith yr wythnos a gall myfyrwyr brofi eu hunain mewn parau neu fel dosbarth cyfan.

**e. cynnal cystadleuaeth ddosbarth** ar ddiwedd y tymor cyntaf.

i. Dylid profi'r myfyrwyr yn unigol a ni ddylid defnyddio prociau'r cof.

ii. Dylai'r myfyrwyr gael un funud i sillafu yn gywir cynifer o eiriau ag y bo modd yn yr Iaith Darged.

iii. Dylai'r athro/awes ddewis geiriau ar hap a dylid dweud y geiriau yn Saesneg neu'n Gymraeg, yna fe ddylai'r myfyriwr ddweud y gair yn yr Iaith Darged ac yna ei sillafu gan ddefnyddio gwyddor yr Iaith Darged.

iv. Bydd y myfyrwyr yn derbyn un pwynt ar gyfer pob gair sy'n cael ei sillafu'n gywir o fewn yr amser. Os mae'r myfyrwyr yn dechrau gair pan mae'r amserydd yn gorffen, dylent gael yr hawl i'w orffen.

v. Mewn achos o rownd gyfartal, dylid chwarae rownd sydyn:

- Dylai'r myfyrwyr gymryd tro i sillafu gair yn gywir.
- Os mae'r myfyrwyr yn dechrau gair yn anghywir, byddant allan.
- Dylai hyn barhau tan nes bod enillydd ac ail safle.

**Terfyn amser: 16eg Rhagfyr 2011**

# **Cyfnod 2:** Cystadleuaeth Ysgol

- **Dylai athrawon ddyrannu 50 o eiriau ychwanegol** i enillwyr cyfnod 1 (gellir lawrlwytho rhestri geiriau oddi ar dudalen adnoddau gwefan Llwybrau at Ieithoedd Cymru www.routesintolanguages.ac.uk/cymru).
- **Dylai enillwyr y dosbarth ymarfer yn wythnosol** i brofi ei gilydd: gall hyn gael ei wneud amser egwyl neu amser cinio. Yn ychwanegol at hyn, gall y dosbarth brofi eu henillwyr bob wythnos fel dechreuad neu sesiwn lawn i'r wers.
- **Dylid Cysatdleuaeth Ysgol gael ei chynnal** erbyn hanner tymor y Gwanwyn. Mae'r un rheolau yn berthnasol â chyfnod 1, yr unig wahaniaeth yw y bydd y myfyrwyr yn cael eu profi ar 100 o eiriau yn hytrach na 50 o eiriau.
- **Dylid gyflwyno enwau pedwar enillydd.**

**Terfyn Amser - 10fed Chwefror 2012**

---

# **Cyfnod 3:** Cystadleuaeth Ranbarthol

- **Dylai athrawon ddyrannu 50 o eiriau ychwanegol** i enillwyr cyfnod 2 (gellir lawrlwytho rhestri geiriau oddi ar dudalen adnoddau gwefan Llwybrau at Ieithoedd Cymru www.routesintolanguages.ac.uk/cymru).
- **Dylai enillwyr yr ysgol ymarfer yn wythnosol** i brofi ei gilydd: gellir gwneud hyn amser egwyl neu amser cinio. Yn ychwanegol at hyn, gall y dosbarthiadau perthnasol brofi eu henillwyr bob wythnos fel dechreuad neu sesiwn lawn i'r wers.
- **Bydd Cystadleuaeth Ranbarthol yn cael ei chynnal** ar ddiwedd tymor y Gwanwyn (dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau). Mae'r un rheolau yn berthnasol â chyfnodau 1 a 2, yr unig wahaniaeth yw y bydd y myfyrwyr yn cael eu profi ar 150 o eiriau yn hytrach na 50 neu 100 o eiriau.
- **Bydd yr Enillwyr Rhanbarthol yn cael eu datgan ar y dydd** ac fe fydd seremoni wobrwyo.

---

# **Cyfnod 4:** Cystadleuaeth Genedlaethol

- **Dylai athrawon ddyrannu 50 o eiriau ychwanegol** i enillwyr cyfnod 3 (gellir lawrlwytho rhestri geiriau oddi ar dudalen adnoddau Llwybrau at Ieithoedd Cymru www.routesintolanguages.ac.uk/cymru)
- **Dylai'r enillwyr rhanbarthol ymarfer yn wythnosol** i brofi ei gilydd: gellir gwneud hyn amser egwyl neu amser cinio gyda myfyrwyr eraill. Yn ychwanegol at hyn, gall y dosbarth(iadau) perthnasol brofi'r enillydd(wyr) bob wythnos fel dechreuad neu sesiwn lawn i'r wers.
- **Fe fydd Cystadleuaeth Genedlaethol yn cael ei chynnal** ar ddiwedd Tymor yr Haf (dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau). Mae'r un rheolau yn berthnasol â chyfnodau 1, 2 a 3, yr unig wahaniaeth yw y bydd y myfyrwyr yn cael eu profi ar 200 o eiriau yn hytrach na 50, 100 neu 150 o eiriau.
- **Bydd yr Enillwyr Cenedlaethol yn cael eu datgan ar y dydd** ac fe fydd seremoni wobrwyo.

routes into LANGUAGES
llwybrau at ieithoedd CYMRU

## Cysylltiadau

**Llwybrau at Ieithoedd Cymru**

- Rhian Jones 029 2026 5408
- Ellie Jones 029 2026 5410

**routescymru@ciltcymru.org.uk**
**www.routesintolanguages.ac.uk/cymru**

Dyfeisiwyd gan Jane Driver

# Cystadleuaeth 'Spelling Bee'

## **Cyfnod 1:** Cystadleuaeth Ddosbarth

routes into LANGUAGES
Llwybrau at ieithoedd CYMRU

**Enw a chyfeiriad yr ysgol**

**Cydlynydd**

Enw

E-bost

**Enillwyr Dosbarth**

| Dosbarth | Cyfenw | Enw(au) cyntaf | Iaith Darged |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |



At ddefnydd y swyddfa yn unig
Sylwadau

# Cystadleuaeth 'Spelling Bee'

## **Cyfnod 2:** Cystadleuaeth Ysgol

routes into LANGUAGES
Llwybrau at ieithoedd CYMRU

**Enw a chyfeiriad yr ysgol**

**Cydlynydd**

Enw

Ebost

**Enillwyr Ysgol**

| Cyfenw | Enw(au) Cyntaf | Iaith yr anogeiriau (Cymraeg/Saesneg) | Iaith Darged |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |



At ddefnydd y swyddfa un unig
Sylwadau